

Banc Bwyd

Gwahodddwn chi os dymunwch i roi bwydydd ym mocs y Banc Bwyd wrth y drws yn Capel Coch. Rydym yn falch o gael cefnogi Banc Bwyd Caernarfon. Diolch am eich haelioni dros y flwyddyn ddiwethaf ac edrychwn ymlaen at allu parhau i gefnogi'r gwaith eleni. Mae trefnwyr y Banc Bwyd yn ddiolchgar am ein cefnogaeth.

Dyma'r math o bethau a dderbynnir:
Llefrith UHT neu bowdr - Siwgr - Sudd ffrwythau - Cawl tun - Pasta - Tuniau tomatos - Grawnfwyd - Siocled - Tuniau pwdin reis - Bagiau te - Coffi - Reis - Powdwr tatws stwnsh - cig tun - jam - ffrwythau tun - bisgedi.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Fercher, Chwefror 12: Cyfarfod Gweddi Cynllun Efe am 7.00 o'r gloch

yn 'Cartref', Caeathro.

Dydd Sul, Chwefror 16: Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch ac oedfa dan arweiniad y Gweinidog am 5.00 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Nos Fawrth: Y Gymdeithas Undebol am 7.00 o'r gloch yng ngofal Mr John H Hughes, Llanberis.

Nos Fercher, Chwefror 12: Cyfarfod Gweddi Cynllun Efe am 7.00 o'r gloch yn 'Cartref', Caeathro.

Nos Wener, Chwefror 14: CIC yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch.

Dydd Sul, Chwefror 9: Gwasanaethir yn yr Oedfa am 10.00 o'r gloch gan Dr Huw Tegid Roberts, Llangefni. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Cynhelir oedfa am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Chwefror 16: Ni fydd oedfa ond mae croeso i ymuno â'r oedfaon yn Capel Coch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Chwefror 9

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 16

10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Chwefror 23

10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Dafydd Ll Hughes

Mawrth 2

9.30 a.m. - Y Gweinidog
10.00 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Chwefror 9

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Chwefror 16

10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa

Chwefror 23

10.30 a.m. - Oedfa Deulu
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 2

10.00 a.m. a 5.00 p.m.
Y Parchg Richard O Jones

Dim Ysgol Sul (Gwyliau Hanner Tymor)



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 578- Dydd Sul, 09 Chwefror, 2014

Dwy wers

Clywais sôn yr wythnos ddiwethaf am Yr Alban, yr *International Standards Organisation*, Streic y Glowyr a gwarth camdrin plant o fewn Eglwys Rhufain. A David Cameron.

Gwrthododd Mr Cameron ymddiheuro am yr hyn a wnaeth y Llywodraeth Geidwadol adeg Streic y Glowyr yn 1984-85 pan oedd hi a'r Bwrdd Glo yn mynnu mai 20 o byllau y bwriedid eu cau. Roedd Undeb Cenedlaethol y Glowyr yn honni bod y Llywodraeth yn bwriadu cau dros 70 ohonynt. Ond fe ddangosodd dogfennau'r Llywodraeth a ryddhawyd ddechrau'r wythnos bod y Llywodraeth yn wir wedi bwriadu cau 75 o byllau o'r cychwyn. Gwrthododd Mr Cameron ystyried ymddiheuro am y celwydd a ddywedwyd gan Lywodraeth Mrs Thatcher 30 mlynedd yn ôl, er bod hwnnw'n amlwg yn rhannol gyfrifol am y streic a'r holl helynt a'i dilynodd. Petai Mr Cameron yn gwylio *Newsnight* ar BBC2 ba noson, byddai wedi dysgu rhywbeth gan Babydd amlwg o Ganada a fu'n trafod cam-drin plant a phobl ifanc o fewn Eglwys Rufain. Ar derfyn y drafodaeth, pan ofynnwyd iddo beth oedd ganddo i'w ddweud wrth y dyn ifanc yn y stiwdio a oedd wedi ei gamdrin, atebodd ar unwaith ei fod yn ymddiheuro iddo ar ran yr Eglwys ac ar ei ran ei hun fel un o offeiriad yr Eglwys honno. Roedd yn ateb diffuant, ac yn wers i Mr Cameron a phawb ohonom, bod ymddiheuro am gelwyddau a chamdriniaeth a phob pechod arall yn beth anrhydeddus a chywir.

Dw'i ddim am gyhuddo Mr Cameron o ddweud celwydd, ond gelid dadlau bod mwy nag un anwiredd yn yr araith a gafwyd ganddo ddydd Gwener ynglŷn â'r Refferendwm sydd i'w gynnal yn yr Alban ym mis Medi. Mynnai bod 'ansicrwydd mawr ynghylch dyfodol y Deyrnas Unedig' a bod gan bobl 'saith mis i achub y wlad fwyaf rhyfeddol a fu erioed', a 'bod canrifoedd o hanes yn y fantol'. Anwiredd yw dweud mai un wlad yw'r Deyrnas Unedig neu 'Brydain'. Gwladwriaeth o fwy nag un wlad yw hi, a dylai David Cameron wybod hynny. Gwlad yw'r Alban. A gwlad yw Cymru, fel y cadarnhawyd y dydd o'r blaen gan yr *International Standards Organisation*, a ddatganodd mai 'gwlad' ac nid 'tywysogaeth' yw hi. A byddai llawer o haneswyr, a phobl ymhob rhan o'r byd, yn barod i herio'r datganiad mai Prydain yw'r 'wlad fwyaf rhyfeddol a fu erioed'. Un rheswm dros geisio annibyniaeth yw bod pobl yn amau'r honiad hwnnw ac yn anfodlon â'r hyn a ddygodd 'canrifoedd o hanes' i'w gwlad.

A'r wers arall i Mr Cameron ac i ninnau yw bod gostyngeddrwydd yn beth da, a bod y gwirionedd yn bwysig. Peth hyll iawn yw ymffrostio ynom ein hunain, a'n cyfrif ein hunain yn well na phawb arall, boed yn bersonol neu'n genedlaethol. Ac mae'r gwir am gau pyllau glo ac am statws gwlad, fel am bopeth arall, yn holl bwysig. Pan yw gostyngeddrwydd a gwirionedd yn brin, mae edifeirwch ac ymddiheuriad mor angenrheidiol.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso cynnes i oedfaon y Sul unwaith eto. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad o'r newydd.

Byddaf fi'n arwain yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch. Cynhelir yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac oedfa MOLI am 5.00 o'r gloch.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Neiniolen am 10.15 o'r gloch, ac yn wahanol i'r hyn a gyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf byddaf fi'n arwain yr oedfa am 5.00 o'r gloch.

Byddaf yn arwain oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch.

Cofion

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Chwefror 11.

Bydd y cyfarfod hwn yng ngofal Mr John H Hughes, Llanberis, ac estgynnir croeso cynnes i bawb.

Cyfarfod Gweddi Efe

Cynhelir Cyfarfod Gweddi Cynllun Efe yng Nghaeathro am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Ionawr 12. Bydd y cyfarfod yn nhy Andrew Settatre, 'Cartref', Caeathro.

Pwyllgor Blaenoriaid

Cynhelir Pwyllgor Blaenoriaid Capel Coch yn y festri am 7.00 o'r gloch nos Lun, Chwefror 17.

CIC

Cynhelir CIC yn Capel Coch rhwng 7.00 a 8.30 o'r gloch nos Wener nesaf, Chwefror 14.

'Capel Got Talent'

Cofiwch bod angen rhoi gwybod i ni erbyn HENO os ydych yn bwriadu cystadlu yn 'Capel Got Talent' yn festri Capel Coch wythnos i nos Wener. Mae'r manylion ar y dudalen nesaf, ond bydd rhaid cael digon o eitemau er mwyn cynnal y noson.

Cetrys Inc a Stampiau

Nodyn bach i'ch atgoffa ein bod yn dal i dderbyn hen getrys inc a hen stampiau yn Capel Coch.

Rydym yn cael arian at yr Ysgol Sul gan y cwmni yr anfonwn y cetrys inc ato.

Mae'r stampiau'n cael eu trosglwyddo i elusen sy'n casglu arian at gael cwn

tywys ar gyfer y deillion. Mae pob stamp yn cael eu derbyn, hyd yn oed y rhai mwyaf cyffredin.

Cymorth Cristnogol

Gwn ei bod braidd yn gynnar i ddechrau meddwl am fis Mai. A ninnau yng nghanol stormydd mawr y gaeaf mae mis Mai a'i dywydd braf (gobeithio!) yn edrych yn bell iawn. Ac eto ...

Mae Cymorth Cristnogol eisoes yn dechrau trefnu ar gyfer yr wythnos o gasglu arian o ddrws i ddrws yn ystod y mis hwnnw.

Mai 11-17 fydd Wythnos Cymorth Cristnogol eleni, a bwriadwn wneud y casgliad arferol unwaith eto.

Bydd yr adnoddau a baratoir ar gyfer yr Wythnos yn canolbwyntio ar y miliynau o bobl sy'n dioddef ac mewn cymorth am eu bod wedi eu dal yng nghanol rhyfeloedd a phob math o anghydfod mewn gwahanol rannau o'r byd.

Os medrwch roi ychydig oriau yn ystod yr wythnos honno i'n helpu gyda'r casgliad byddwn yn ddiolchgar iawn.

O leiaf, wrth grybwyll ganol Chwefror, mae'n rhoi digon o amser i ni baratoi a nodi'r dyddiad yn y gobaith y bydd modd cael rhagor o bobl i helpu gyda'r gwaith.

Cronfa Gronyn

Diolch yn fawr iawn am bob rhodd a dderbyniwn i Gronfa Gronyn. Mae pob rhodd yn help i dalu am ei argraffu bob Sul. Derbyniwyd sawl rhodd ers dechrau'r flwyddyn, sy'n f'atgoffa mai tua'r adeg yma o'r flwyddyn y byddwn yn arfer tynnu sylw at y gronfa. Rydym yn falch o dderbyn rhoddion at y gronfa unrhyw adeg o'r flwyddyn wrth gwrs, ond mae yna gyfle arbennig i gyfrannu

'Capel Got Talent'

Bwriedir cynnal 'Capel Got Talent' yn Capel Coch unwaith eto yn dilyn llwyddiant y noson arbennig a gafwyd y llynedd.

Y dyddiad yw nos Wener, Chwefror 21, a'r beirniad fydd Arwel Jones, Hogia'r Wyddfa.

Mae llwyddiant y noson yn dibynnu ar gael digon o gystadleuwyr. Bydd rhaid cael o leiaf 10 eitem er mwyn cynnal y noson. Os na fydd digon o eitemau, ni fydd modd cynnal y noson.

Felly, a wnewch chi ofalu eich bod yn rhoi eich enw i ni erbyn HEN, nos Sul, Chwefror 9 a nodi beth fyddwch yn ei wneud. Cafwyd ymateb ardderchog y llynedd gydag amrywiaeth o eitemau. Mae croeso i oedolion yn ogystal â'r plant a'r ieuencid gymryd rhan eleni eto. Canu, adrodd, dweud jôcs, actio, dawnio, chwarae offeryn cerdd, dweud stori, gwaith celf, jyglo, hyfforddi ci, coginio, consurio - beth bynnag y dalent cyma'ch cyfle i gystadlu am dlws 'Capel Got Talent 2014'.

Ieuencid y dosbarth Ysgol Sul fydd yn trefnu eleni eto. Felly, ffoniwch 872390 i roi eich enw i ni erbyn dydd Sul nesaf.

A chofiwch, mae'n bwysig ein bod yn cael gwybod yr wythnos hon er mwyn gwneud yn siŵr bod y noson yn cael ei chynnal.

ar ddechrau'r flwyddyn fel hyn.

Gobeithio'n fawr bod Gronyn yn dal i gyflawni ei bwrpas o gyflwyno neges yr Efengyl a gwybodaeth am waith eglwysi'r Ofalaeth hon. Os gwyddoch am rywun a fyddai'n hoffi derbyn copi yn wythnosol, ond nad yw'n ei dderbyn ar hyn o bryd, cofiwch roi gwybod i ni.